



Department
for Environment
Food & Rural Affairs




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogiaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

Dyddiad: Gorffennaf 2023

Fersiwn: Ymgynghoriad Cyhoeddus



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	4
Gweledigaeth yr FMP.....	9
Cwmpas yr FMP Draenogiaid y Môr a statws y bysgodfa/stoc.....	10
Rhywogaeth.....	10
Disgrifiad o'r bysgodfa	10
Statws presennol y bysgodfa	11
Y dull presennol o reoli draenogiaid y môr	12
Dull cyffredin y DU/yr UE	12
Mesurau rheoli rhanbarthol	13
Meithrinfeydd	13
Nodau a Strategaeth Reoli'r FMP	15
Nodau Rheoli	15
Nod 1: Strwythurau cynhwysol i ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio rheoli'r bysgodfa draenogiaid y môr	15
Nod 2: Mynediad teg at y bysgodfa draenogiaid y môr, gan flaenoriaethu cynaliadwyedd stociau.....	16
Nod 3: Lleiafu gwaredu all-ddalfeydd draenogiaid y môr lle mae cyfraddau goroesi'n isel.....	17
Nod 4: Annog a hwyluso cydymffurfiaeth lawn â rheoliadau yn ymwneud â draenogiaid y môr.....	18
Nod Cymdeithasol ac Economaidd.....	19
Nod 5: Mwyafu buddion pysgota draenogiaid y môr i gymunedau arfordirol lleol	19
Nodau o ran lefelau stoc.....	20
Nod 6: Cynaeafu'r stoc draenogiaid y môr yn gynaliadwy yn unol â chyngor gwyddonol	20
Nod 7: Amddiffyniadau parhaus ar gyfer stoc draenogiaid y môr ifanc a rhai sy'n silio	22

Nodau Amgylcheddol Ehangach.....	23
Nod 8: Lleihafu effaith pysgota draenogiaid y môr ar yr ecosystem forol ehangach	23
Nod 9: Lliniaru ac addasu yn unol ag effaith y newid yn yr hinsawdd ar bysgota draenogiaid y môr.....	25
Cydweithredu rhyngwladol.....	27
Adolygu a diwygio'r cynllun.....	27

Atodiadau:

- 1 Cysylltiadau â pholisïau allweddol
- 2 Datganiad ynghylch y dystiolaeth, cyfeiriadau a'r cynllun ymchwil
- 3 Adroddiad Bournemouth
- 4 Cofnod o'r Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- 5 Adroddiad terfynol Policy Lab
- 6 Profiadau bywyd Policy Lab
- 7 Cyd-ddirnadaeth Policy Lab
- 8 Cyd-lunio Policy Lab
- 9 Cyngor SNCB ynghylch Ystyriaethau Amgylcheddol Ehangach
- 10 Nodau'r FMP: tystiolaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid
- 11 Rheoli Pysgodfeydd y Glannau

Crynodeb Gweithredol

Mae Cynllun Rheoli Pysgodfeydd (FMP) Draenogiaid y Môr (*Dicentrarchus labrax*) ar gyfer Cymru a Lloegr yn un o blith 43 FMP a gynigir o amgylch y DU a nodir yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd (JFS). Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru, gan gydwethredu â gwyddonwyr, cyrff rheoleiddio, Cyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCBs) a rhanddeiliaid o bob rhan o'r dirwedd draenogiaid y môr, i ddarparu map ffordd ar gyfer rheoli pysgodfeydd draenogiaid y môr yn gynaliadwy yn yr hirdymor yn nyfroedd Cymru a Lloegr dros y chwe blynedd nesaf, yn unol ag amcanion Deddf Pysgodfeydd 2020 (y Ddeddf).

Beth yw FMP?

Cynlluniau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw FMPs sy'n plotio llwybr tuag at bysgodfeydd cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae FMP yn nodi gweledigaeth a nodau ar gyfer y bysgodfa darged (neu'r pysgodfeydd targed), ynghyd â'r camau gweithredu a'r ymyriadau rheoli sydd eu hangen i gyflawni'r nodau hyn. Mae gan Defra a Llywodraeth Cymru weledigaeth uchelgeisiol i ddefnyddio FMPs i fynd i'r afael â materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â physgodfeydd, gan sicrhau gwelliannau sylweddol yn ein dull o reoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau.

Pam mae angen FMP ar gyfer Draenogiaid y Môr?

Mae pysgodfeydd draenogiaid y môr yn cyfrannu'n ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd at gymunedau arfordirol trwy, er enghraifft, cyflogaeth a buddiannau pysgotwyr hamdden. Fodd bynnag, fe wnaeth cyfuniad o orbysgota a chryfder dosbarth blwyddyn gwael (nifer yr unigolion a gaiff eu geni mewn blwyddyn) arwain at ostyngiad sydyn yn lefelau stoc draenogiaid y môr o 2010 ymlaen. Mewn ymateb, gweithredwyr dull rheoli ar y cyd rhwng y DU a'r UE yn 2015, ac mae hynny wedi'i ddiwygio'n flynyddol. Ers i'r mesurau hyn gael eu cyflwyno, bu cynnydd sylweddol o ran biomas stoc silio - er bod recriwtio yn parhau i fod yn isel. Er bod draenogiaid y môr yn cael eu pysgota o fewn terfynau cynaliadwy yn nyfroedd Cymru a Lloegr ar hyn o bryd, mae'r FMP hwn yn adolygu'r dull presennol o reoli draenogiaid y môr yng Nghymru a Lloegr, yn pennu'r cyfeiriad i gynnal stociau draenogiaid y môr ar lefelau cynaliadwy ac yn sicrhau y gall cymunedau sy'n dibynnu ar ddraenogiaid y môr wireddu buddion pysgota'r rhywogaeth hon.

Dulliau rheoli presennol

Gall cychod pysgota o'r DU a'r UE bysgota draenogiaid y môr yn nyfroedd y DU a'r UE yn unol â darpariaethau mynediad at stociau nad ydynt yn destun cwtôtâu (NQS), yng Nghytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE (TCA). Mae'r DU a'r UE wedi datblygu sawl mesur rheoli i amddiffyn y stoc. Cyflwynwyd y rhain yn 2015 (ac

maent wedi'u haddasu'n flynyddol) wedi rhybuddion gwyddonol brys ynghylch stoc yn dirywio yn sgil nifer o flynyddoedd o recriwtio gwael a phwysau sylweddol yn sgil pysgota.

Mae mesurau rheoli yn cynnwys Isafswm Maint Cyfeirnod Cadwraeth (MCRS), awdurdodiadau domestig sy'n ofynnol i bysgota am ddraenogaid y môr, tymhorau caeedig ar gyfer pysgotwyr masnachol a hamdden, a chyfyngiadau ar ddalfeydd/sgil-ddalfeydd ar gyfer pysgotwyr masnachol a hamdden. Mae tri math o offer wedi'u hawdurdodi ar gyfer glanio draenogaid y môr – treillrwydi/rhwydi sân, rhwydi sefydlog (y ddau ar gyfer sgil-ddalfeydd yn unig) a bachau a leiniau – gwaherddir defnyddio unrhyw fath arall o offer i lanio draenogaid y môr. Yn ogystal, mae is-ddeddfau rhanbarthol yng Nghymru a Lloegr yn darparu rheolaeth ar y glannau (<6 milltir forol), tra bod rhwydwaith o feithrinfeydd yng Nghymru a Lloegr hefyd yn amddiffyn draenogaid y môr ifanc.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Hwyluswyd ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer FMP Draenogaid y Môr gan Policy Lab, tîm amlddisgyblaethol o lunwyr polisi, dylunwyr ac ymchwilwyr yn yr Adran Addysg. Defnyddiodd Policy Lab ddull cymysg cydweithredol, gan ymgysylltu â dros 1400 o rhanddeiliaid draenogaid y môr ledled Cymru a Lloegr trwy gyfweiliadau, trafodaethau ar-lein, ymweliadau â phorthladdoedd dros dro, gweithdai ac arolygon. Nod Policy Lab oedd cyd-ddatblygu set o atebion posibl ar gyfer rheoli draenogaid y môr er mwyn llywio nodau a gweithredoedd FMP Draenogaid y Môr. Cyflwynodd Policy Lab ganlyniadau eu hymarfer helaeth i Defra a llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2023, ac mae'r gwaith hwn wedi llywio'r gwaith o ddrafftio FMP Draenogaid y Môr.

Nodau allweddol

Er mwyn sicrhau y rheolir stociau draenogaid y môr yn effeithiol yn nyfroedd Cymru a Lloegr dros y chwe blynedd nesaf, mae'r cynllun hwn yn nodi naw nod sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau rheoli domestig. Mynegir pob nod â sail resymegol, tystiolaeth, barn rhanddeiliaid, camau gweithredu tymor byr (blwyddyn neu ddwy) a thymor canolig, a dangosyddion perfformiad i fonitro cyflawni'r cynllun. Dyma'r naw nod a amlinellir yn yr FMP hwn:

1. Strwythurau cynhwysol i ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio rheoli'r bysgodfa draenogaid y môr
2. Mynediad teg at y bysgodfa draenogaid y môr, gan flaenoriaethu cynaliadwyedd stociau
3. Lleiafu gwaredu sgil-ddalfeydd draenogaid y môr lle mae cyfraddau goroesi'n isel
4. Annog a hwyluso cydymffurfiaeth lawn â rheoliadau yn ymwneud â draenogaid y môr
5. Mwyafu buddion pysgota draenogaid y môr i gymunedau arfordirol lleol

6. Cynaeafu'r stoc draenogiaid y môr yn gynaliadwy yn unol â chyngor gwyddonol
7. Amddiffyn draenogiaid y môr ifanc a rhai sy'n silio
8. Lleihafu effaith pysgota draenogiaid y môr ar yr ecosystem forol ehangach
9. Lliniaru ac addasu yn unol ag effaith y newid yn yr hinsawdd ar bysgota draenogiaid y môr

Er bod rhyngweithiadau, synergeddau a thensiynau cymhleth niferus rhwng y nodau hyn, nod trosfwaol yr FMP yw sicrhau bod stociau'n cael eu cynaeafu'n gynaliadwy a'u bod ar yr un pryd yn fuddiol i ystod amrywiol o fuddiannau amgylcheddol, masnachol, adloniadol a chymdeithasol.

Camau a gweithredu

Yn y tymor byr, mae gwelliannau i fesurau rheoli draenogiaid y môr i helpu i sicrhau cynaliadwyedd a hyblygrwydd ar gyfer y sector pysgota yn cynnwys:

- Llywodraethau yn sefydlu grwpiau rheoli draenogiaid y môr i hwyluso cyfranogiad rhanddeiliaid mewn penderfyniadau rheoli
- Archwilio cyfleoedd i ddatblygu systemau rheoli mwy addasol sy'n diogelu'r stoc ac yn caniatáu i bysgotwyr fanteisio ar unrhyw gynnydd yn helaethrwydd stociau
- Ystyried a ddylid adolygu'r system awdurdodi ddomestig bresennol ar gyfer dull amgen o sicrhau bod cyfleoedd pysgota yn cyd-fynd â nodau eraill yr FMP (er enghraifft, lleihau gwaredu, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a sicrhau'r buddion mwyaf posibl i gymunedau arfordirol lleol)
- Adolygu adegau a hyd mwyaf addas y tymhorau caeedig
- Ystyried beth yw'r ffordd orau o fonitro a lleihau gwaredu, er enghraifft, gan ddefnyddio offerynnau cofnodi data presennol megis CatchApp a/neu fynediad a reolir (o fewn y cyfyngiadau blynyddol presennol) yn lle data
- Annog monitro gwella, defnyddio dulliau addasu offer ac ymgysylltu â chynlluniau perthnasol i helpu i leihau nifer yr achosion o sgil-ddal rhywogaethau sensitif sy'n gysylltiedig â physgota
- Gwella cyfathrebu a dealltwriaeth o reoliadau ynghylch draenogiaid y môr, yn cynnwys Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig (RBS)

Yn y tymor canolig/hir, gellid ystyried rhagor o gamau i helpu i gyflawni'r nodau a ddisgrifir uchod. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu cyfyngiadau priodol ar feintiau o ran y stoc draenogiaid y môr, er enghraifft, MCRS neu feintiau slotiau
- Adolygu strategaethau cynaeafu priodol ar gyfer draenogiaid y môr yng ngoleuni canlyniadau ymarfer meincnodi 2023-24 y Cyngor Rhyngwladol ar Archwilio'r Môr (ICES)

- Annog cyfranogiad mewn rhaglenni mabwysiadu Monitro Electronig o Bell (REM) yn gynnar lle bo'n briodol er mwyn gwella'r broses o gasglu data am warediadau a sgil-ddal rhywogaethau sensitif
- Cynorthwyo'r diwydiant i ddatgarboneiddio ac addasu yn unol ag effeithiau newid amgylcheddol ar ddoesbarthiad a helaethrwydd draenogaid y môr
- Adolygu'r arfer o ddefnyddio rhwydi bas gyda'r glannau ac ar y lan i benderfynu a oes angen mesurau diogelu ychwanegol i atal sgil-ddal pysgod mudol
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o weithredu diffiniad o ganran cyfansoddiad dalfeydd mewn perthynas â sgil-ddalfeydd draenogaid y môr ar gyfer pysgotwyr rhwydi
- Adolygu dichonoldeb model lle mae draenogaid y môr yn cael eu glanio i leihau taflu, a/neu fanteision ac anfanteision lleihau'r pwyslais ar sgil-ddalfeydd a thuag at ddull sy'n cyfyngu ar ddalfeydd neu'n pennu cwtâu
- Gwella cydweithredu rhwng cyrff rheoleiddio mewn perthynas â gorfodi wedi'i dargedu ac unioni grymoedd i sicrhau cysondeb
- Gwella tegwch yn y sector er mwyn sicrhau bod y rheoliadau yn gymwys i bawb sy'n pysgota draenogaid y môr

Gwella'r sylfaen dystiolaeth

Mae'r FMP hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth fiolegol, gymdeithasol ac economaidd gyfredol sydd ar gael ar hanes bywyd draenogaid y môr, asesu stoc ac arferion pysgota a rheoli (Adran 8: Nodau Rheoli Pysgodfeydd a Strategaeth Reoli, Atodiadau 2 a 3). Mae bas yn stoc categori 1 ICES sy'n gymharol gyfoethog o ran y data sydd ar gael a bydd asesiadau MSY cadarn yn cael eu llunio'n flynyddol. Fodd bynnag, gallai llenwi nifer o fylchau yn y dystiolaeth wella asesiadau o stoc ymhellach - gan gynnwys gwella dulliau casglu data ynghylch waredu, dalfeydd hamdden a deall strwythur stoc a recriwtio draenogaid y môr. Bydd gwella'r sylfaen dystiolaeth ar bwysigrwydd diwylliannol a chymdeithasol pysgota draenogaid y môr, yn ogystal ag effeithiau pysgota ar yr amgylchedd ehangach, hefyd yn cynorthwyo i sicrhau cynnydd tuag at reoli pysgodfeydd draenogaid y môr yn fwy cynaliadwy.

Monitro ac adolygu'r cynllun

Bydd cynlluniau gwaith manwl yn cael eu datblygu i ategu'r gwaith o weithredu'r cynllun hwn. Fel y nodir yn y Ddeddf, bydd yr FMP Draenogaid y Môr ar gyfer dyfroedd Cymru a Lloegr yn cael ei adolygu bob chwe blynedd o leiaf. Bydd yr adolygiad ffurfiol hwn yn asesu perfformiad yr FMP mewn perthynas â dangosyddion perfformiad a chanlyniadau. Fodd bynnag, rhagwelir y caiff yr FMP ei adolygu a'i ddiweddarau'n fwy rheolaidd gan gydweithredu â'r grwpiau rheoli draenogaid y môr.

I gloi

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogiaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

Mae'r FMP Draenogiaid y Môr wedi'i lunio at ddibenion cyflawni'r gofynion a ddisgrifir yn y Ddeddf. Mae'r datganiad hwn a chynnwys y cynllun yn cyd-fynd â'r gofyniad a bennir yn adran 6 y Ddeddf.

Mae'r FMP hwn wedi cydgasglu mesurau rheoli presennol a'r holl wyddoniaeth a thystiolaeth sydd ar gael i asesu statws stociau draenogiaid y môr o amgylch Cymru a Lloegr yn 2023 er mwyn helpu i bennu lefel ymelwa gynaliadwy. Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, mae draenogiaid y môr yn cael eu pysgota o fewn cyfyngiadau cynaliadwy o amgylch Cymru a Lloegr fel rhan o ddulliau rheoli sefydledig. Mae'r FMP yn dwyn sylw at ble gellir ystyried gwelliannau o ran y dystiolaeth a rheoli er wyn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y bysgodfa yn nyfroedd Cymru a Lloegr.

Hoffai Defra a Llywodraeth Cymru gydnabod y cyngor, y dystiolaeth a'r cymorth a gafwyd gan Gymdeithas Awdurdodau Pysgodfeydd y Glannau a Chadwraeth (AIFCAs), Cefas, Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), Sefydliad Rheoli Morol (MMO), Natural England (NE), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Seafish a'n rhanddeiliaid, drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r FMP hwn.

Cyflwyniad

Mae'r Ddeddf yn disgrifio'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu pysgodfeydd (masnachol a hamdden) yn y DU. Mae'n pennu dyletswydd i Awdurdodau Polisi Pysgodfeydd¹ baratoi a chyhoeddi FMPs sy'n nodi polisiâu i adfer stociau a'u cynnal ar lefelau cynaliadwy. Mae'r [Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd \(JFS\)](#), a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2022, yn nodi rhagor o fanylion am y polisiâu y bydd Awdurdodau Pysgodfeydd y DU yn eu dilyn i gyflawni neu gyfrannu at gyflawni'r wyth amcan pysgodfeydd yn y Ddeddf. Mae'r JFS yn cynnwys rhestr o FMPs, sy'n nodi'r awdurdod arweiniol ar gyfer pob FMP, y stociau y maent yn eu cwmpasu a'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi.

Mae'r polisiâu a'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn wedi'u paratoi gan Defra a Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion adran 6(5) y Ddeddf. Mae'r FMP hwn yn disgrifio'r polisiâu a'r dull rheoli sydd eu hangen i reoli pysgodfeydd draenogiaid y môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Mae rhagor o fanylion am ofynion y Ddeddf ac ymrwymadau ehangach, a sut caiff y rhain eu bodloni yn y cynllun hwn, wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Datblygwyd yr FMP hwn gan Defra a Llywodraeth Cymru. Fe'i hysbyswyd gan waith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a wnaeth gan Policy Lab, a ddaeth â dros 1400 o randdeiliaid â buddiannau ym maes pysgota draenogiaid y môr ynghyd, gan gynnwys pysgotwyr masnachol a hamdden, ymchwilwyr, y llywodraeth, cyrff rheoleiddio, cyrff anllywodraethol a llunwyr polisi i argymhell mesurau posibl i wella dulliau o reoli draenogiaid y môr. Ceir rhagor o fanylion am waith ymgysylltu â rhanddeiliaid gan Policy Lab yn Atodiadau 4-8 a 10.

Gweledigaeth yr FMP

Mae'r FMP hwn yn ceisio creu map ffordd ar gyfer rheoli stociau draenogiaid y môr yn effeithiol yn nyfroedd Cymru a Lloegr dros y chwe blynedd nesaf, er mwyn caniatáu i'r adnodd naturiol gwerthfawr hwn fod o fudd i ystod amrywiol o fuddiannau amgylcheddol, masnachol, adloniadol a chymdeithasol gan sicrhau bod stociau'n cael eu cynaeafu'n gynaliadwy. Dylai dulliau rheoli draenogiaid y môr fod yn hyblyg, yn addasol ac yn seiliedig ar ecosystemau.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i FMPs ddefnyddio dull rhagofalus o reoli pysgodfeydd yn niffyg gwybodaeth wyddonol ddigonol, sy'n golygu nad yw diffyg sicrwydd gwyddonol yn rheswm digonol ynddo'i hun i beidio â gweithredu neu i ohirio

¹ Defra, Llywodraeth Cymru; Llywodraeth yr Alban; Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Affairs (DAERA) yng Ngogledd Iwerddon a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO)

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogiaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

gweithredu mesurau rheoli effeithiol a fydd yn cynnal stoc neu ei hamgylchedd. Rhaid i'r dull rhagofalus fynd ati'n benodol i ystyried canlyniadau annymunol a rhai a allai fod yn annerbyniol a darparu cynlluniau wrth gefn i osgoi neu liniaru canlyniadau o'r fath.

Mae'r FMP Draenogiaid y Môr yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a dylid datblygu a gweithredu mesurau rheoli gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r FMP hefyd yn nodi bylchau yn y dystiolaeth ac yn disgrifio sut yr eir i'r afael â'r rhain. Mae Datganiad Tystiolaeth a Chynllun Ymchwil wedi'u drafftio (Atodiad 2) i nodi'r bylchau hyn yn y dystiolaeth a disgrifio sut yr eir i'r afael â'r rhain yn fersiynau'r dyfodol o'r FMP.

Cwmpas yr FMP Draenogiaid y Môr a statws y bysgodfa/stoc

Rhywogaeth

Mae'r FMP hwn yn berthnasol i ddraenogiaid y môr Ewropeaidd yn unig yn y stoc ogleddol sydd i'w chanfod yn nyfroedd Cymru a Lloegr (canol a deheubarth Môr y Gogledd, Môr Iwerddon, y Sianel, Môr Hafren a'r Môr Celtaidd; adrannau 4.b-c, 7.a a 7.d-h ICES). Mae'r hyn yn cynnwys gweithgarwch gan yr holl longau sy'n pysgota yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Mae gan ddraenogiaid y môr gylch bywyd cymhleth â chyfnod larfaol eigionol, yna, bydd y pysgod ifanc yn cytrefu meithrinfeydd gyda'r glannau, cyn mudo oddi yno i ymuno â'r boblogaeth o bysgod yn eu llawn dwf. Ceir gwybodaeth fanylach am fioleg ac ecoleg draenogiaid y môr yn Atodiadau 2 a 3.

Disgrifiad o'r bysgodfa


Dosberthir draenogiaid y môr ledled gogledd-ddwyrain yr Iwerydd ac o amgylch holl ddyfroedd y DU, ond mae eu helaethrwydd yn amrywio rhwng ardaloedd a thymhorau. Daw'r rhan fwyaf o ddraenogiaid y môr sy'n cael eu dal yn nyfroedd y DU o fewn ardal ICES 7e (gorllewin y Sianel), ac yna ardal ICES 7d (dwyrain y Sianel) (Ffigur 1).

Mae'r mwyafrif (tua 99%) o ddraenogiaid y môr sy'n cael eu glanio yn holl ddyfroedd y DU yn cael eu glanio yn ardal yr FMP. Mae'r rhan fwyaf o laniadau masnachol draenogiaid y môr (o ran pwysau) gan longau pysgota o'r DU yn ardal yr FMP yn cael eu dal gan longau pysgota o Loegr (82%-90% o'r glaniadau rhwng 2016 a 2021), ac mae cychod pysgota o Gymru yn glanio'r rhan fwyaf o'r gweddill. Mae cychod pysgota yn defnyddio offer pysgota bachau a leiniau (leiniau sy'n cael eu dal â'r dwylo) yn bennaf, a dilynir hynny gan sgil-ddalfeydd o rwydi sefydlog a threillrwydi

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogiaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

dyfnforol. Bydd cychod pysgota o'r UE hefyd yn glanio draenogiaid y môr yn ardal yr FMP, ac maent wedi cyfrif am oddeutu 16% o'r holl laniadau yn ystod blynyddoedd diweddar. Mae glaniadau a adroddwyd gan longau o'r DU ers 2012 yn amlygu uchafbwynt yn ystod 2014, wedi'i ddilyn gan ostyngiad serth i'r lefel isaf rhwng 2017-2019. Mae glaniadau wedi cynyddu ychydig unwaith eto yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae draenogiaid y môr hefyd yn rhywogaeth darged bwysig ar gyfer pysgodfeydd hamdden, ac amcangyfrifir fod dalfeydd hamdden yr holl wledydd (y DU a'r UE) sy'n elwa ar y stoc ogleddol yn cyfrif am oddeutu 27% o gyfanswm y dalfeydd. Ceir gwybodaeth fanylach am bysgodfeydd draenogiaid y môr yn Atodiad 2



Ffigur 1. Presenoldeb draenogiaid y môr a gofnodwyd o amgylch Ynysoedd Prydain, yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan yr Ocean Biodiversity Information System (OBIS; A), a data ynghylch glaniadau pysgodfeydd masnachol (B). Mae'r rhan sydd wedi'i thywyllu yn dangos yr ardal ddaearyddol sy'n cael ei chwmpasu gan yr FMP Draenogiaid y Môr

Statws presennol y bysgodfa

Ar hyn o bryd, mae ICES yn cydnabod pedair uned o stoc draenogiaid y môr yn yr Iwerydd. Mae'r FMP hwn yn cwmpasu dyfroedd Cymru a Lloegr, a dim ond y stoc ogleddol sydd i'w chanfod yn y dyfroedd hynny. Mae'r Stoc ogleddol yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r FMP hwn (canol a deheubarth Môr y Gogledd, Môr Iwerddon, Môr Hafren, Môr Hafren a'r Môr Celtaidd; adrannau 4.b-c, 7.a a 7.d-h ICES), ond darperir gwybodaeth fiolegol yn y FMP hwn ynghylch y stoc ogleddol gyfan (Atodiadau 2 a 3). Mae mwyafrif y glaniadau yn digwydd yn ardal yr FMP (99%). Mae asesiad meincnodi ICES ar gyfer draenogiaid y môr yn cael ei gynnal yn 2023-2024 i adolygu perthnasedd biolegol strwythur presennol y stoc a chynnig newidiadau os bydd angen hynny.

Er bod draenogiaid y môr yn rhywogaeth nad ydynt yn destun cwtâu (stociau nad ydynt yn destun Cyfanswm y Dalfeydd a Ganiateir neu gwtâu o safbwynt rheoli),

bydd ICES yn cynnig cyngor blynyddol o ran dalfeydd ynghylch cyfleoedd i bysgota stoc ogleddol draenogiaid y môr sy'n berthnasol i'r FMP hwn (<https://www.ices.dk/advice/Pages/Latest-Advice.aspx>). Mae'r model asesu sy'n cwmpasu'r stoc ogleddol yn cael ei ystyried yn un Categori 1 ag asesiad dadansoddol a rhagolwg llawn. Roedd hanes dymeg stoc, fel y'i hamcangyfrifwyd yn asesiad 2022, yn dangos bod y biomas wedi dirywio hyd at 1990 oherwydd gwendid o ran cryfder dosbarthiadau blwyddyn, ond bod hynny wedi cynyddu'n sylweddol yn y 1990au oherwydd dosbarthiadau blwyddyn cryf, yn enwedig ym 1989.

Roedd y gostyngiad mewn biomas stoc silio rhwng 2009 a 2018 yn deillio o gyfuniad o nifer fawr o farwolaethau pysgota a gwendid o ran cryfder dosbarth blwyddyn (nifer yr unigolion sy'n silio bob blwyddyn). Mae'r stoc wedi'i nodweddu gan gyfnodau o recriwtio gwael yn yr 1980au ac ers 2008. Mae'r cyfnodau recriwtio gwael hyn yn effeithio'n sylweddol ar fomas, sy'n cael ei waethygu gan unrhyw gynnydd o ran marwolaethau pysgod. Amcangyfrifwyd bod tuedd gynyddol mewn biomas wedi digwydd ers 2018, a allai fod wedi deillio o'r mesurau rheoli a gyflwynwyd ers 2015 ynghyd â digwyddiadau recriwtio uwch na'r cyfartaledd ers 2013. Ceir gwybodaeth fanylach am statws stoc draenogiaid y môr yn Atodiad 2.

Y dull presennol o reoli draenogiaid y môr

Dull cyffredin y DU/yr UE

Mae gan y DU a'r UE fynediad at bysgota draenogiaid y môr yn fasnachol ym Mharth Economaidd Neilltuedig (EEZ) y naill a'r llall yn unol â darpariaethau mynediad ar gyfer NQS yn y TCA (Atodiad 38 yn y TCA). Mae hyn yn darparu ar gyfer mynediad i bysgota NQS 'ar lefel sydd o leiaf yn cyfateb i'r tunelli cyfartalog a gafodd eu pysgota gan y Garfan honno yn nyfroedd y Blaid arall yn ystod y cyfnod 2012-2016'².

Ers 2015, mae mesurau'r DU/UE wedi bod ar waith i reoli pwysau pysgota ar stoc ogleddol draenogiaid y môr. Mae'r mesurau cytunedig yn cynnwys:

- Maint cyfeirnod cadwraeth lleiaf (42cm ar hyn o bryd)
- Tymhorau caeedig (Chwefror/Mawrth ar hyn o bryd, yn achos pysgotwyr masnachol a hamdden)
- Cyfyngiadau blynyddol ar ddalfeydd fesul cwch bysgota ar gyfer y tri math o offer - treillrwydi/rhwydi sân (3.8 tunnell fetrig), rhwydi sefydlog (1.6 tunnell

² Mae mynediad at bysgod yn y dyfroedd tiriogaethol yn seiliedig ar batrymau pysgota hanesyddol yn ystod cyfnod cyfeirio.

fetrig) a bachau a leiniau (6.2 tunnell fetrig). Gwaherddir pob *métier* arall rhag glanio draenogiaid y môr.

- Yn achos y sawl sy'n pysgota gan ddefnyddio treillrwydi/rhwydi sân a rhwydi sefydlog, gellir glanio sgil-ddalfeydd draenogiad y môr, ac mae hynny wedi'i gyfyngu i 5% o'r pwysau byw fesul taith ar gyfer treillrwydi/rhwydi sân.
- Mae'n ofynnol i longau pysgota'r DU/yr UE a wnaeth lanio draenogiaid y môr yn ystod cyfnod cyfeirio 1 Gorffennaf 2015 – 30 Medi 2016 fod â hanes da er mwyn cael awdurdodiad i ddefnyddio rhwydi ac offer bachau a leiniau.
- Mae bagiau pysgotwyr hamdden wedi'u cyfyngu i ddau bysgodyn y dydd

I gael rhagor o fanylion am fesurau presennol ynghylch draenogiaid y môr, trowch at Ganllawiau MMO a Llywodraeth Cymru ynghylch Pysgota Draenogiaid y Môr: [Bass Fishing Guidance 2023 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) / [Pysgota draenogiaid môr: canllawiau 2023 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Ers 2021, mae'r mesurau hyn wedi'u trafod gan y DU a'r UE yn flynyddol. Mae newidiadau dilynol i ddeddfwriaeth y DU wedi'u rhoi ar waith drwy offeryn statudol, a'r diweddaraf yw Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Diwygio) 2023. Yn ystod ymgynghoriadau 2022, cytunodd y DU a'r UE i ystyried datblygu strategaeth aml-flwyddyn (MYSt) ar gyfer draenogiaid y môr fel rhan o fframwaith y Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd (SCF).

Mesurau rheoli rhanbarthol

Yn ogystal â'r fframwaith rheoli ar y cyd trosfwaol a amlinellir uchod, mae pysgodfeydd o fewn terfyn tiriogaethol chwe milltir y môr oddi ar Arfordir Lloegr yn cael eu rheoli gan 10 IFCA. Mae gan yr IFCA's ddyletswydd i reoli amgylchedd morol y glannau yn gynaliadwy ac mae ganddynt ddyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â chadwraeth a bioamrywiaeth.

Yn Lloegr, mae'r is-ddeddfau presennol a roddwyd ar waith gan IFCA's i reoli pysgodfeydd draenogiaid y môr yn diogelu ystod eang o gynefinoedd rhanbarthol a nodweddion sydd o ddiddordeb o ran cadwraeth, gan gynnwys cynefinoedd draenogiaid y môr ifanc. Rhestri holl is-ddeddfau'r IFCA's sy'n berthnasol i'r bysgodfa draenogiaid y môr yn Atodiad 11.

Yng Nghymru, rheoli pysgodfeydd y glannau gan Lywodraeth Cymru. Nodir yr is-ddeddfau perthnasol yn Atodiad 11.


Meithrinfeydd

Dynodwyd Meithrinfeydd Draenogiaid y Môr (BNAs) yng Nghymru a Lloegr yn y 1990au i leihau effaith pysgota masnachol a hamdden mewn ardaloedd lle'r oedd y

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogiaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

mwyafrif o ddraenogiaid y môr yn debygol o fod yn is na'r MCRS – yn flaenorol, isafswm maint glaniadau (MLS) a sefydlwyd yn neddfwriaeth y DU a'r UE. Mae cyfanswm o 37 o aberoedd a lleoliadau arfordirol eraill wedi'u dynodi'n BNAs (Ffigur 2), a cheir cyfyngiadau ychwanegol ar bysgota masnachol a hamdden ynddynt.

Ystyrir fod y BNAs wedi gwneud cyfraniad pwysig at y gwaith o amddiffyn stoc draenogiaid y môr, gan gynnwys trwy ysgogi newidiadau o ran maint dosbarthiadau a gwella cyfraddau goroesi stoc ifanc a chynhyrchedd stoc. Fodd bynnag, mae'n anodd asesu cyfraniad cymharol meithrinfeydd unigol at y stoc o bysgod yn eu llawn dwf ac at fecanweithiau sy'n ddibynnol ar ddwysedd a allai leihau cyfraddau goroesi mewn meithrinfeydd. Mae hyn yn golygu bod dadansoddiad o gostau a buddion ardaloedd meithrin unigol yn heriol. Hefyd, efallai na wnaiff BNAs ychwanegol gynyddu amddiffyniadau i ddraenogiaid y môr ifanc mewn mannau ble mae is-ddeddfau presennol eisoes yn amddiffyn pysgod aberol.



Ffigur 2. BNAs presennol a bennir yn unol ag Offeryn Statudol 1999 Rhif 75 Gorchymyn Draenogiaid y Môr (Ardaloedd Penodedig) (Gwahardd Pysgota) (Amrywio) 1999

Nodau a Strategaeth Reoli'r FMP

Mae'r dull rheoli presennol ers 2015 wedi arwain at adfer stociau draenogiaid y môr a phennu cyfyngiadau ar ddalfeydd yn unol â therfynau cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag asesiadau stoc MSY blynyddol a lunnir gan ICES, gan fodloni'r rhwymedigaeth a nodir yn adran 6 y Ddeddf. Felly, mae'r nodau a'r strategaeth reoli a amlinellir isod ar gyfer yr FMP hwn yn ceisio adeiladu ar y fframwaith presennol i nodi dull rheoli domestig cynaliadwy hirdymor ar gyfer pob unigolyn a phob llong sy'n pysgota am ddraenogiaid y môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr. Ar gyfer nodau o ran lefelau stoc, gallai dull rhyngwladol cydgysylltiedig helpu i gyflawni buddion llawn y nodau hyn i bysgotwyr y DU – trowch at Adran 7 i gael rhagor o fanylion am gydweithio rhyngwladol.

Cyflwynir pob nod ynghyd â sail resymegol, tystiolaeth, barn rhanddeiliaid, camau gweithredu i gyflawni'r nod, dangosyddion perfformiad a chysylltiadau ag amcanion y Ddeddf (mae tystiolaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid ar gyfer pob nod wedi'u nodi yn Atodiad 10).

Bydd unrhyw ymyriadau yn ymwneud â rheoli pysgodfeydd yn arwain at ystod o ddylanwadau cymdeithasol, economaidd a biolegol. Wrth weithredu mesur rheoli pysgodfeydd newydd, ceir gofyniad statudol i amcangyfrif y manteision cenedlaethol ehangach a ragwelir (er enghraifft, gwella statws stociau'r rhywogaeth darged) yn ogystal ag effeithiau tebygol ar randdeiliaid a dulliau o liniaru effeithiau negyddol. Bydd effeithiau ehangach ar gymunedau lleol ac effeithiau economaidd, cymdeithasol a hawliau dynol yn cael eu nodi mewn asesiadau o effeithiau cysylltiedig a fydd yn ofynnol fel rhan o'r gwaith i ddatblygu mesurau.

Nodau Rheoli

Nod 1: Strwythurau cynhwysol i ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio rheoli'r bysgodfa draenogiaid y môr

Sail resymegol: Mae'r stoc draenogiaid y môr yn adnodd cenedlaethol a rennir sy'n bwysig i lawer o wahanol randdeiliaid. Buasai cydweithredu yn helpu i wella'r dulliau o reoli'r adnodd er budd pawb.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Tymor byr

Dylai Defra a Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp neu grwpiau rheoli draenogiaid y môr ffurfiol â chynrychiolaeth gytbwys, cod ymddygiad effeithiol a chadeirydd annibynnol i roi cyngor a chefnogi dull cydweithredol o reoli draenogiaid y môr. Dylai'r

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

cyfranogwyr gynnwys, er enghraifft, pysgotwyr masnachol, pysgotwyr hamdden, cynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi ehangach a diwydiant, gwyddonwyr, llunwyr polisi a chyrrff rheoleiddio.

Dylid ystyried sefydlu is-grŵp tystiolaeth o'r grŵp rheoli draenogaid y môr er mwyn:

- Ceisio consensws rhwng sectorau trwy sicrhau bod gwyddoniaeth a thystiolaeth yn elfennau anhepgor mewn perthynas â gwneud penderfyniadau
- Meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth rhwng pysgotwyr/gwyddonwyr/cyrrff llywodraethau
- Meithrin dealltwriaeth o'r broses wyddonol, yn cynnwys sut yr eir ati i asesu stoc, trwy gyfathrebu a chydweithredu gwyddonol effeithiol
- Defnyddio data ansoddol (a meintiol, os yn bosibl) gan bysgotwyr, yn cynnwys gwybodaeth sy'n seiliedig ar brofiadau, i'w cynnwys mewn asesiadau ffurfiol o'r stoc
- Datblygu strategaeth monitro a gwerthuso ar gyfer yr FMP Draenogaid y Môr

Tymor canolig/hir

Parhau i gydweithio i feithrin gallu fel fforwm i drafod materion o bwysigrwydd ehangach i'r bysgodfa draenogaid y môr, er enghraifft, anghenion o ran rheoli a thystiolaeth yn y tymor hwy, defnydd o'r gofod morol, nodi ardaloedd sy'n neilltuol o bwysig o ran draenogaid y môr.

Dangosyddion perfformiad a monitro: sefydlu grŵp rheoli draenogaid y môr ac is-grŵp tystiolaeth gysylltiedig o fewn blwyddyn i gyhoeddi'r FMP Draenogaid y Môr.

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Gwyddonol, Budd cenedlaethol

Nod 2: Mynediad teg at y bysgodfa draenogaid y môr, gan flaenoriaethu cynaliadwyedd stociau

Sail resymegol: Mae'r system bresennol i awdurdodi pysgota draenogaid y môr yn fasnachol wedi bod yn effeithiol o ran cyfyngu ar bwysau pysgota, ac mae hynny wedi gwella cynaliadwyedd stoc draenogaid y môr yn ystod blynyddoedd diweddar. Fodd bynnag, yn y tymor canolig/hir, dylid anelu at sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng pob math o fynediad (masnachol ac adloniadol) at y bysgodfa draenogaid y môr a diogelu'r stoc, gan gyd-fynd â nodau eraill yr FMP hwn (er enghraifft, lleihau cyfanswm sy'n cael ei waredu, lleihau'r effaith ar yr amgylchedd ehangach, sicrhau'r buddion mwyaf posibl i gymunedau arfordirol lleol).

Sut y gellir cyflawni hyn:

Tymor byr

Dylai grŵp/grwpiau rheoli draenogiaid y môr gychwyn adolygiad o'r system awdurdodi ddomestig bresennol (a luniwyd i helpu i reoli pwysau pysgota ar y stoc draenogiaid y môr). Dylai unrhyw system amgen geisio:

- Lleihau capasiti nas defnyddir yn y fflyd;
- Cynnal mynediad at y bysgodfa (o fewn cyfyngiadau cynaliadwy); a
- Chyfateb â nodau eraill yr FMP Draenogiaid y Môr (er enghraifft, lleihau difrod i'r amgylchedd ehangach, lleihau gwaredu, sicrhau'r buddion mwyaf posibl i gymunedau arfordirol lleol a sicrhau cynaeafu'r stoc yn gynaliadwy).

Tymor canolig/hir

Yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, gweithredu system amgen i reoli mynediad at y bysgodfa

Dangosyddion perfformiad a monitro: Caiff systemau amgen o ran mynediad at ddraenogiaid y môr eu hadolygu a'u gweithredu os byddant yn briodol.

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Mynediad cyfartal, Budd cenedlaethol, Cynaliadwyedd, Rhagofalus, Gwyddonol

Nod 3: Lleiafu gwaredu all-ddalfeydd draenogiaid y môr lle mae cyfraddau goroesi'n isel

Sail resymegol: Lleihau'r gwastraff pysgod marw a gwella dulliau casglu data er mwyn rheoli gwaredu yn well.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Tymor byr

- Ystyried cymell cyfranogiad domestig mewn treialon gwyddonol i wella'r broses o gasglu data am warediadau, er enghraifft, darparu rhanddirymiadau i laniu gwarediadau draenogiaid y môr. Er enghraifft, ystyried caniatáu i gychod treillio awdurdodedig <10m gyflwyno cais am randidrymiad i >5% o ddraenogiaid y môr fesul taith, gan barhau o fewn lwfansau sgil-ddalfeydd blynyddol ar yr amod y bydd pysgotwyr yn cofnodi manylion y draenogiaid y môr y byddant yn eu gwaredu. Monitro'n ofalus ynghylch effaith hyn ar laniadau, gwarediadau a chynaliadwyedd stoc, ac adolygu hynny'n flynyddol.
- Archwilio'r defnydd o CatchApp i gofnodi data ynghylch gwarediadau.
- Cefnogi parhad rhaglen REM y Môr Celtaidd er mwyn casglu rhagor o ddata

Tymor canolig/hir

- Ystyried mabwysiadu system amgen i awdurdodi pysgota draenogiaid y môr os cytunir ar hynny (gweler Nod 2), wedi'i llunio i helpu i leiafu gwaredu
- Adolygu effeithlonedd y dull rheoli yn sgil dulliau gwell o gasglu data

- Ystyried sut i gymell cyfranogiad mewn rhaglenni mabwysiadu REM yn gynnar lle bo hynny'n briodol i wella dulliau o gasglu data am warediadau
- Ystyried dulliau posibl o ddatblygu offer i leihau gwarediadau o rwydi a threillrwydi
- Cynnig y dylai'r grŵp rheoli draenogiaid y môr ymchwilio i ddichonoldeb gweithredu model ble caiff yr holl ddraenogiaid môr a gaiff eu dal eu glanio (ble mae cyfraddau goroesi'n isel) ond ni chaiff unrhyw elw a wneir wrth werthu unrhyw symiau sy'n fwy na'r cyfyngiadau presennol ar ddalfeydd eu cadw gan bysgotwyr
- Cynnig y dylai'r grŵp rheoli draenogiaid y môr ystyried manteision ac anfanteision sefydlu dull sy'n cyfyngu ar ddalfeydd neu'n defnyddio cwotâu (yn hytrach na dull sy'n ymwneud â sgil-ddalfeydd), a allai gynnwys dyletswydd i lanio pysgod

Dangosyddion perfformiad a monitro: Cynhyrchir data newydd ynghylch gwaredu draenogiaid y môr: mae'r Grŵp Rheoli Draenogiaid y Môr wedi adolygu'r dull rheoli domestig sy'n ymwneud â gwaredu, yn cynnwys dichonoldeb glanio'r holl ddraenogiaid y môr (lle mae cyfraddau goroesi'n isel).

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Sgil-ddalfeydd, Cynaliadwyedd

Nod 4: Annog a hwyluso cydymffurfiaeth lawn â rheoliadau yn ymwneud â draenogiaid y môr

Sail resymegol: Sicrhau bod pawb sy'n pysgota draenogiaid y môr yn deall y rheoliadau ac yn cydymffurfio â hwy.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Tymor byr

Parhau â'r fframwaith trosfwaol presennol ar gyfer rheoli draenogiaid y môr a rennir rhwng Cymru a Lloegr, â phosibiliadau am amrywiadau rhanbarthol rhwng dyfroedd Cymru a rhanbarthau (IFCA) Lloegr

Gwella cyfathrebu a dealltwriaeth o reoliadau ynghylch draenogiaid y môr, yn cynnwys Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig (RBS), trwy:

- Canllawiau eglurach gan yr MMO ar GOV.UK a chyfathrebu â deiliaid presennol trwyddedig
- Dylai'r grŵp rheoli draenogiaid y môr helpu i ledaenu gwybodaeth ymhlith y gymuned bysgota masnachol a hamdden
- Cydgasglu is-ddeddfau perthnasol yr IFCA's a Chymru fel rhan o'r FMP hwn (gweler Atodiad 11)
- Cyfleu rheoliadau i brynwyr draenogiaid y môr yn well er mwyn gwella cydymffurfiaeth, er enghraifft, drwy law'r grŵp rheoli draenogiaid y môr, y gadwyn gyflenwi ehangach a gwaith ymgysylltu arfordirol MMO

- Ymchwilio i ganfod sut i wella arwyddion ynghylch rheoliadau presennol mewn cyrchfannau pysgota poblogaidd a mannau lletygarwch lleol.

Tymor canolig/hir

- Ystyried comisiynu ymchwil i sicrhau dealltwriaeth well ynghylch lefelau presennol y gydymffurfiaeth â rheoliadau ynghylch draenogiaid y môr
- Ystyried sut i wella cydweithredu rhwng cyrff rheoleiddio ynghylch gorfodaeth a dargedir ac unioni grymoedd er mwyn sicrhau cysondeb o ran dulliau cyrff rheoleiddio o orfodi deddfwriaeth RBS
- Ystyried sefydlu gofyniad sy'n nodi bod yn rhaid i gychod pysgota waredu draenogiaid y môr dieisiau yn syth er mwyn hwyluso gorfodi rheoliadau yn ymwneud â draenogiaid y môr yn effeithiol ar y môr yn hytrach na dim ond wrth lanio
- Ceisio adolygu'r 'Gwaharddiadau' o dan Orchymyn Draenogiaid y Môr (Ardaloedd Penodedig) (Gwahardd Pysgota) (Amrywio) 1999 i ystyried: perthnasedd ar draws pob sector, pa un ai a oes angen ehangu'r gwaharddiadau y tu hwnt i'w cwmpas presennol, er enghraifft, pysgota o gwch, ac a oes angen ystyried ychwanegu cymal cludo/tybio
- Gweithio i sicrhau cydraddoldeb yn y sector o ran sicrhau bod rheoliadau yn ymwneud â draenogiaid y môr yn gymwys i bawb sy'n pysgota draenogiaid y môr. Gallai hyn gynnwys ystyried sut ddylid rheoli cychod sydd heb foduron
- Ystyried adolygu oblygiadau ailddiffinio 'sgil-ddalfeydd' draenogiaid y môr ar gyfer rhwydi trwy gyflwyno cyfyngiad ar ganran cyfansoddiad dalfeydd (er enghraifft, <50% o gyfanswm dalfeydd). Gallai unrhyw gyfleoedd newydd ar gyfer stoc sy'n deillio o hynny gael eu defnyddio i ganiatáu i unigolion eraill sy'n pysgota gan ddefnyddio rhwydi all glanio eu sgil-ddalfeydd draenogiaid y môr, er enghraifft, gan gyfuno hynny ag adolygiad o'r system awdurdodi a ddisgrifir yn Nod 2

Dangosyddion perfformiad a monitro: Diweddarir canllawiau'r MMO ynghylch draenogiaid y môr; adborth gwell ynghylch cyfleu rheoliadau, gwella lefelau cydymffurfiaeth.

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Budd cenedlaethol

Nod Cymdeithasol ac Economaidd

Nod 5: Mwyafu buddion pysgota draenogiaid y môr i gymunedau arfordirol lleol

Sail resymegol: Mae draenogiaid y môr yn arbennig o bwysig i bysgotwyr y glannau oherwydd prisiau uchel y farchnad, profiad pysgota deniadol i bysgotwyr môr

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

hamdden ac etifeddiaeth hanesyddol ar gyfer cymunedau arfordirol Cymru a Lloegr. Felly, os caiff ei reoli'n briodol, gallai pysgota draenogaid y môr sicrhau buddion cymdeithasol ac economaidd sylweddol i gymunedau arfordirol lleol.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Tymor byr

- Ystyried defnyddio amodau trwyddedau yn achos cyfyngiadau ar ddalfeydd a gaiff eu pennu'n flynyddol yn hytrach na deddfwriaeth eilaidd i alluogi rheoli pysgodfeydd yn hyblyg a chaniatáu i bysgotwyr elwa'n gynt ar newidiadau ac yn unol â thystiolaeth sy'n esblygu.
- Cynyddu ymchwil ar bwysigrwydd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol pysgodfeydd draenogaid y môr i ddangos y manteision i gymunedau arfordirol lleol a sut y gellid eu cynyddu a'u mesur.

Tymor canolig/hir

- Ceisio adolygu buddion ac ailystyried y dull rheoli yn sgil tystiolaeth newydd, gan gynnwys dyrannu cyfleoedd i bysgota yn unol â'r buddion a sicheir (os bernir bod hynny'n briodol). Dylai'r adolygiad o systemau awdurdodi amgen a amlinellir yn Nod 2 hefyd fod yn gydgyssylltiedig.
- Ystyried cymhwyso offeryn dyrannu dalfeydd draenogaid y môr ICES (ar ôl ei ddiwygio fel rhan o ymarfer meincnodi 2023-24) i sicrhau y dyrennir dalfeydd draenogaid y môr yn deg.
- Ystyried sut i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau draenogaid y môr gan brynwyr a gwerthwyr draenogaid y môr yn ogystal â physgotwyr er mwyn helpu cymunedau arfordirol lleol i fanteisio'n llawn ar fuddion pysgota draenogaid y môr (gweler Nod 4).

Dangosyddion perfformiad a monitro: Mae ymchwil wedi'i chynnal ynghylch buddion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol pysgodfeydd draenogaid y môr; ystyried a ddylid defnyddio amodau trwyddedau yn achos cyfyngiadau ar ddalfeydd.

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Budd cenedlaethol, Cynaliadwyedd

Nodau o ran lefelau stoc

Nod 6: Cynaeafu'r stoc draenogaid y môr yn gynaliadwy yn unol â chyingor gwyddonol

Sail resymegol: Prif nod FMPs yw sicrhau y caiff y stociau sy'n cael sylw ganddynt eu cynaeafu'n gynaliadwy. Ers cyflwyno'r dull rheoli presennol yn 2015, mae cynaeafu'r stoc draenogaid y môr wedi'i gynnal o fewn terfynau cynaliadwy yn unol

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogiaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

â chyngor ICES. Yn y dyfodol, efallai y gellir adeiladu ar y sylfaen hon i wella'r buddion posibl yn sgil pysgota draenogiaid y môr drwy archwilio strategaethau cynaeafu amgen yn unol â nodau eraill yr FMP.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Tymor byr

Parhau i ddyrannu dalfeydd yn unol â chyngor gwyddonol ICES nad yw'n mynd y tu hwnt i ddull MSY (o fewn cyfyngau hyder 95%)

Ystyried sut i lenwi bylchau yn y dystiolaeth sy'n ofynnol er mwyn ar gyfer gwella asesiadau o stoc, gan gynnwys data ychwanegol ar lefelau gwaredu yn y sector masnachol a dalfeydd gan bysgotwyr hamdden (Atodiad 2):

- Cydweithio â gwyddonwyr, cyrff rheoleiddio a'r sector hamdden i wella'r broses o gasglu data ynghylch dalfeydd hamdden – gan gynnwys opsiynau ar gyfer dulliau eraill, er enghraifft, ceisiadau, cofrestru ac adrodd, dulliau gweithredu ar y safle
- Gweler Nod 3 ynghylch gwaredu

Tymor canolig/hir

Ystyried canlyniadau ymarfer meincnodi ICES yn 2023-24 a goblygiadau ar gyfer strategaethau rheoli stoc/cynaeafu yn y dyfodol.

Ar ôl i ymarfer meincnodi ICES ddod i ben, ceisio adolygu a chynnal ymchwil newydd i asesu strategaethau cynaeafu amgen ar gyfer draenogiaid y môr sy'n blaenoriaethu buddion i'r gymdeithas ac i'r ecosystem (er enghraifft, y Cynnyrch Economaidd Mwyaf (MEY), Strategaeth Stoc Fawr, Uchafswm Buddion Cymdeithasol) gan fwriadu mwyafu effeithlonrwydd, proffidioldeb a chynaliadwyedd cynaeafu draenogiaid y môr yn unol â nodau eraill yr FMP.

Dangosyddion perfformiad a monitro: Cynhelir stoc o fewn terfynau cynaliadwy (FMSY (Marwoldeb yn deillio o bysgota yn gyson â chyflawni'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf), o fewn cyfyngau hyder 95%); cyflawnir mwy o ymchwil i lenwi bylchau o ran y data/gwella asesiadau o stoc ac asesu strategaethau cynaeafu amgen; ailystyri'r strategaethau rheoli yn sgil tystiolaeth newydd.

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Rhagofalus, Cynaliadwyedd, Gwyddonol, Budd Cenedlaethol

Nod 7: Amddiffyniadau parhaus ar gyfer stoc draenogiaid y môr ifanc a rhai sy'n silio

Sail resymegol: Er y gwelid arwyddion o adferiad stoc draenogiaid y môr yn ystod blynyddoedd diweddar, mae biomas stoc sy'n silio (SSB) a recriwtio pysgod ifanc yn dal yn destun pryder. Budd dulliau effeithiol o amddiffyn stoc sy'n silio a stoc ifanc draenogiaid y môr yn galluogi'r stoc i adfer yn fwyaf effeithiol.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Tymor byr

Ceisio casglu tystiolaeth ynghylch adegau a hyd mwyaf addas y tymhorau caeedig er mwyn optimeiddio diogelu stociau draenogiaid y môr sy'n silio (Gweler Atodiad 3) - gan gynnwys ymchwilio i'r posibilrwydd o amrywiadau rhanbarthol ac asesiad o'r effeithiau posibl ar bysgotwyr.

Tymor canolig/hir

- Ystyried gwahardd rhwydi sefydlog mewn meithrinfeydd draenogiaid y môr, a chymhwyso rheolau BNA at bysgota ar y lan yn ogystal â physgota o gychod
- Adolygu'r terfynau maint mwyaf priodol ar gyfer y stoc draenogiaid y môr, er enghraifft, MCRS neu feintiau slotiau lle bydd pysgod sy'n fwy ac yn llai na maint penodol yn cael eu dychwelyd i'r stoc bridio
- Adolygu'r posibilrwydd o gael tymhorau caeedig gofodol-amserol lleol er mwyn diogelu draenogiaid y môr wrth i dystiolaeth ddatblygu a chaniatáu hynny
- Datblygu canllawiau ynghylch arferion gorau o ran trin a thrafod pysgod er mwyn gwella cyfraddau goroesi pysgod o bysgodfeydd masnachol a hamdden
- Ystyried datblygu dulliau o addasu offer er mwyn lleihau sgil-ddalfeydd draenogiaid y môr ifanc
- Cynyddu ymchwil er mwyn sicrhau dealltwriaeth wella o'r berthynas rhwng ffactorau amgylcheddol, yn enwedig effaith y newid yn yr hinsawdd ar recriwtio pysgod ifanc i'r stoc draenogiaid y môr

Dangosyddion perfformiad a monitro: SSB; FMSY; mae tystiolaeth berthnasol wedi'i sicrhau ac mae canllawiau ynghylch trin a thrafod pysgod wedi'u llunio; mae cyfyngiadau maint priodol ar gyfer y stoc draenogiaid y môr wedi'u hystyried.

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Cynaliadwyedd, Rhagofalus, Ecosystem,

Nodau Amgylcheddol Ehangach

Nod 8: Lleihau effaith pysgota draenogiaid y môr ar yr ecosystem forol ehangach

Ystyriodd cyngor ynghylch cadwraeth a ddarparwyd gan SNCBs (Atodiad 9) risgiau i rywogaethau hynod symudol dynodedig oddi allan i ffiniau Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAs) a risgiau i ddisgrifyddion Strategaeth Forol y DU yn deillio o bysgodfeydd sydd wedi'u cynnwys mewn FMPs. Mae Ardaloedd Morol Gwarchoddedig lawn (HPMAs) yn gwarchod yr holl rywogaethau a chynefinoedd a phrosesau ecosystem cysylltiedig o fewn terfyn y safle, gan gynnwys gwely'r môr a'r golofn ddŵr. Rhagwelir y bydd gweithgareddau echdynnol, dinistriol a dyddodiadol yn cael eu gwahardd yn yr HPMAs, gan gynnwys yr holl bysgota masnachol a hamdden. Mae cyngor yr SNCB, yn ogystal â blaenoriaethau rhanddeiliaid, Defra a Llywodraeth Cymru, wedi llywio'r nodau a nodir yn yr adran ganlynol.

Sail resymegol: Ategir diwydiant pysgota ffyniannus gan amgylchedd morol iach (JFS 2022), ac mae'r llywodraeth wedi ymrwmo i ddull ecosystem o reoli pysgodfeydd a fydd yn rhoi cyfrif am, ac yn ceisio lleihau, effeithiau ar rywogaethau anfasnachol a'r amgylchedd morol yn gyffredinol (Cynllun Amgylcheddol 25 Mlynedd, JFS 2022). Mae amcan Ecosystemau'r Ddeddf yn datgan ymhellach bod dull sy'n seiliedig ar ecosystemau o reoli pysgodfeydd yn ddull sydd: (a) yn sicrhau bod pwysau cyfunol gweithgareddau dynol yn cael ei gynnal o fewn lefelau sy'n gydnaws â chyflawni statws amgylcheddol da (yn unol ag ystyr Rheoliadau Strategaeth Forol 2010 (S.I. 2010/1627)); ac (b) nad yw'n peryglu gallu ecosystemau morol i ymateb i newidiadau a achosir gan bobl.

Nod 8.1: Lleihau cyfanswm y Rhywogaethau Sydd Mewn Perygl, O Dan Fygythiad a Gwarchoddedig mewn pysgodfeydd draenogiaid y môr

Sail resymegol: Mae'r amcan Ecosystem yn y Ddeddf yn nodi bod 'dalfeydd damweiniol o rywogaethau sensitif yn cael eu lleihau a, lle bo'n bosibl, eu dileu', tra bod Menter Lliniaru Sgil-ddalfeydd y DU yn nodi'n fanylach yr amcanion polisi a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r amcan Ecosystem,. Mae rhai elfennau o'r bysgodfa draenogiaid y môr, yn enwedig y defnydd o rwydi, yn peri risg o sgil-ddal rhywogaethau gan gynnwys adar y môr, mamaliaid morol, elasmobranciaid (siarcod, garwbysgod a morgathod), crwbanod môr a physgod mudol (gan gynnwys eogiaid, herlod a gwangod). Mae rhai o'r rhywogaethau hyn yn nodweddiadol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, y mae eu hamddiffyniad yn ymestyn y tu hwnt i derfynau safleoedd; mae gan eraill dargedau poblogaeth sy'n gysylltiedig â Strategaeth Forol y DU, ac mae gan eraill amddiffyniadau rhyngwladol neu dargedau poblogaeth.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Tymor byr

Ystyried caniatáu i bysgotwyr sydd ag awdurdodiadau perthnasol yr opsiwn i newid o ddefnyddio rhwydi sefydlog i offer bachau a leiniau sy'n gysylltiedig â risg is o sgil-ddal rhywogaethau sy'n Warchoddedig, Mewn Perygl a Dan Fygythiad (PET).

Gwella gwaith monitro i sicrhau dealltwriaeth well o sgil-ddalfeydd rhywogaethau PET mewn pysgodfeydd draenogiaid y môr, er enghraifft, sut i annog pysgotwyr i ddefnyddio dulliau monitro dilys (arsylwr/REM) ar gychod.

Defnyddio sianelau cyfathrebu i ddwyn sylw at y canlynol a'u hybu:

- Gofynion presennol i hunan-adrodd am sgil-ddalfeydd
- Cyfranogi mewn arbrofion lleihau sgil-ddalfeydd
- Cynlluniau cymell priodol
- Addasu offer a gweithgareddau i leihau sgil-ddalfeydd (er enghraifft, yn unol â'r hyn sy'n cael cyhoeddusrwydd ar Hyb Lliniaru Sgil-ddalfeydd Clean Catch UK).
- Deunyddiau perthnasol (er enghraifft, pecynnau cymorth ynghylch sgil-ddalfeydd adar môr) i ganiatáu i bysgotwyr wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth i leihau eu risg o sgil-ddal rhywogaethau sensitif

Tymor canolig/hir

Adolygu'r arfer o ddefnyddio rhwydi bas gyda'r glannau ac ar y lan i benderfynu a oes angen mesurau diogelu ychwanegol yn rhanbarthol neu'n genedlaethol i atal sgil-ddal pysgod mudol. Nodi cysylltiadau ag ystyriaethau arbennig ynghylch rhwydi mewn meithrinfeydd (Nod 7).

Ystyried sut a ble i gymell ac annog cyfranogiad mewn rhaglenni mabwysiadu REM yn gynnar lle bo'n briodol i wella'r broses o gasglu data ynghylch sgil-ddalfeydd rhywogaethau PET sy'n gysylltiedig â gweithgarwch pysgota draenogiaid y môr.

Ystyried ymchwil i ganfod beth yn union fyddai dull seiliedig ar ecosystemau o reoli draenogiaid y môr i'w ymgorffori yn fersiynau'r dyfodol o'r FMP Draenogiaid y Môr.

Nod 8.2 Lleihau effeithiau offer pysgota ar gyfanrwydd gwely'r môr

Sail resymegol: Lleihau effaith offer pysgota ar gyfanrwydd gwely'r môr a chynefinoedd dyfnforol.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Cynnal y cyfyngiadau presennol ar dreillio wedi'i dargedu a rhwydo draenogiaid y môr fel rhan o symudiad parhaus tuag at offer sy'n amharu llai (er enghraifft, bachau a leiniau). Mae hyn hefyd yn berthnasol i Nod 8.1 i leihau sgil-ddal rhywogaethau sensitif yn anfwriadol.

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogiaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

Gan gydweithio â rhanddeiliaid, bydd Defra a Llywodraeth Cymru yn ystyried y dystiolaeth ac yna'n datblygu argymhellion pellach ynghylch effeithiau posibl gweithgareddau pysgota (ynghyd â gweithgareddau eraill) ar gyfanrwydd gwely'r môr a chyflwr cynefinoedd dyfnforol, gan gynnwys cyfrannu at weithredu a chydgysylltu'r Gweithgor ynghylch Effaith ar Gynefinoedd Dyfnforol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried y materion ar lefel strategol ac yng nghyd-destun newidiadau parhaus mewn defnydd o'r gofod morol a diogelu'r amgylchedd i gyflawni amcan Statws Amgylcheddol Da yn unol â Strategaeth Forol y DU

Nod 8.3 Lleihau cyfraniad pysgota draenogiaid y môr at sbwriel yn y môr

Sail resymegol: Mae offer pysgota sydd wedi'i adael, ei golli neu ei waredu yn gysylltiedig â rhywogaethau sensitif yn cael eu maglu a physgota anfwriadol ('ghost fishing').

Sut y gellir cyflawni hyn:

- Rhoi'r ail 'Gynllun Gweithredu Rhanbarthol ar Sbwriel Morol' ar waith, gan gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â sbwriel morol sy'n deillio o bysgota.
- Gweithredu 'cynllun aml-flwyddyn 'Ailgylchu Offer Pysgota sydd wedi Cyrraedd Diwedd ei Oes' (Cymru), sef cynllun cenedlaethol i gasglu ac ailgylchu offer pysgota sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes.
- Parhau â rhaglenni monitro i asesu sbwriel ar wely'r môr, sbwriel ar wyneb y môr a sbwriel ar draethau - a mentrau ymchwil parhaus i gynorthwyo i aildddefnyddio offer pysgota sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes a'i addasu at ddibenion gwahanol yn ôl i'r diwydiant pysgota.

Dangosyddion perfformiad a monitro ar gyfer Nod 8: Gwella dulliau casglu data ynghylch sgil-ddalfeydd PET sy'n gysylltiedig â physgota draenogiaid y môr, gan gynnwys drwy raglenni mabwysiadu REM yn gynnar lle bo'n briodol; mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned bysgota draenogiaid y môr ynghylch gofynion monitro presennol; cynnal y dull sgil-ddalfeydd treillio/rhwydo.

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Sgil-ddalfeydd, Ecosystem, Cynaliadwyedd

I gael rhagor o fanylion ynghylch sut mae FMP Draenogiaid y Môr yn cyd-fynd ac yn croestorri ag ystyriaethau polisi amgylcheddol ehangach, gweler Atodiad 1.

Nod 9: Lliniaru ac addasu yn unol ag effaith y newid yn yr hinsawdd ar bysgota draenogiaid y môr

Sail resymegol: Mae Deddf y Newid yn yr Hinsawdd (2008; diwygiwyd yn 2019) yn gosod targed cyfreithiol rwymol i gyflawni sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwyrdd (GHGe) erbyn 2050 ar draws economi'r DU, ag uchelgais o ostyngiad o 78% erbyn

2035. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r targedau hyn, mae'n rhaid i bob sector, gan gynnwys sector bwyd môr y DU, ddatblygu llwybrau i leihau eu GHGe a defnyddio ffynonellau ynni glân amgen i gyfrannu at gyflawni'r targed Sero Net. Bydd effaith y newid yn yr hinsawdd ar stociau pysgod, ac felly ar y diwydiant pysgota, hefyd yn debygol o gynyddu yn y dyfodol. Felly mae angen i'r FMP Draenogiaid y Môr gynorthwyo'r diwydiant i addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd ar stociau draenogiaid y môr, yn ogystal â chyfrannu at ymdrechion i liniaru'r newid yn yr hinsawdd i gyflawni'r targed sero net lle bynnag y bo modd, er enghraifft, trwy newidiadau technolegol, rheolaethol ac ymddygiadol i wella effeithlonrwydd ynni, trosglwyddo i danwydd a ffynonellau ynni amgen, a lleihau effaith uniongyrchol pysgodfeydd ar storffeydd carbon morol.

Sut y gellir cyflawni hyn:

Camau ar y lefel genedlaethol oddi allan i'r FMP hwn

- Cynyddu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar stociau pysgod a physgod cregyn a physgodfeydd drwy'r prosiectau ymchwil a datblygu presennol, er enghraifft, y Bartneriaeth Effaith y Newid Hinsawdd ar y Môr (MCCIP)
- Datblygu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch cynefinoedd carbon glas yn y DU drwy bartneriaethau presennol, er enghraifft, y Bartneriaeth Tystiolaeth Carbon Glas
- Cydweithio ar draws llywodraethau, diwydiant a sefydliadau academaidd i ddeall y bylchau presennol yn y dystiolaeth a'r datblygiadau arloesol diweddaraf i gynorthwyo i ddatblygu llwybrau tuag at Sero Net ar gyfer fflyd bysgota'r DU

Lefel yr FMP

Tymor byr:

- Ystyried ehangu ymchwil ynghylch effaith y newid yn yr hinsawdd ar ddsbarthiad, helaethrwydd, a recriwtio draenogiaid y môr - gan gynnwys archwilio'r defnydd o wyddoniaeth dinasyddion a gwybodaeth seiliedig ar brofiadau i fapio symudiadau o ran ystodau rhywogaethau
- Ystyried ehangu ymchwil i ddeall ôl troed carbon y bysgodfa draenogiaid y môr a sut y gellid ei leihau

Tymor canolig/hir:

- Dechrau integreiddio tystiolaeth newydd ym mhenderfyniadau rheoli'r dyfodol a fersiynau'r dyfodol o'r FMP Draenogiaid y Môr

- Ystyried sut i gynorthwyo diwydiant i addasu i effeithiau amgylcheddol y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys newidiadau o ran dosbarthiadau'r stoc draenogiaid y môr mewn ymateb i dymheredd y môr yn cynhesu
- Ystyried sut i gynorthwyo diwydiant i ddatgarboneiddio (er enghraifft, yn unol â tharged Sero Net erbyn 2050)
- Gallai strategaeth gynaeafu amgen (er enghraifft, strategaeth stoc fawr neu MEY, fel y'i pennwyd gan yr adolygiad sy'n gysylltiedig â Nod 6) gynyddu biomas draenogiaid y môr a chyfrannu at wella storio carbon y cefnforoedd.

Dangosyddion perfformiad a monitro: Monitro allyriadau cychod pysgota, monitro poblogaethau.

Cysylltiad ag amcanion y Ddeddf: Y newid yn yr hinsawdd, Ecosystem

Cydweithredu rhyngwladol

Mae stoc ogleddol draenogiaid y môr sy'n destun yr FMP hwn hefyd yn ymestyn i ddyfroedd tiriogaethol yr UE. Felly, mae'r stoc draenogiaid y môr yn stoc a rennir, ac mae'n cael ei rheoli'n llwyddiannus ar y cyd ar lefel y DU/UE ers 2015 (yn ogystal â dulliau rheoli rhanbarthol priodol). Mae'r FMP hwn yn ymdrin â dulliau domestig o reoli draenogiaid y môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr a bydd yn berthnasol i bob cwch sy'n pysgota yn y dyfroedd hyn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod pysgotwyr y DU yn elwa'n llawn ar fanteision rheoli stoc yn effeithiol, bydd angen cydweithredu rhyngwladol parhaus.

Yn ymgynghoriadau blynyddol 2022, cytunodd y DU a'r UE i ystyried datblygu MYSt ar gyfer draenogiaid y môr yn fframwaith yr SCF. Bydd y dystiolaeth a'r dull rheoli a nodir yn y FMP hwn yn llywio dull y DU o ddatblygu MYSt ar gyfer draenogiaid y môr. Dylid nodi hefyd y bydd ymarfer meincnodi ICES a ddaw i ben yn 2024 yn ailasesu terfynau unedau stoc, ac yn sgil hynny, efallai bydd goblygiadau o ran rheoli'r stoc a rennir yn y dyfodol.

Adolygu a diwygio'r cynllun

Fel y nodir yn y Ddeddf, bydd yr FMP Draenogiaid y Môr ar gyfer dyfroedd Cymru a Lloegr yn cael ei adolygu bob chwe blynedd o leiaf. Bydd yr adolygiad ffurfiol hwn yn asesu sut bydd yr FMP wedi perfformio o ran deilliannau a'r canlyniadau a gyflawnir gan gynnwys y rhai sy'n berthnasol i amcanion y Ddeddf. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn hefyd yn llywio datblygiad fersiynau dilynol o'r FMP.

Cynllun Rheoli Pysgodfeydd arfaethedig ar gyfer Draenogiaid y Môr yn nyfroedd Cymru a Lloegr

Bydd y FMP hefyd yn cael ei asesu fel rhan o'r adolygiad o'r JFS; mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau polisi pysgodfeydd adolygu'r JFS pryd bynnag y bo hynny'n briodol, neu o leiaf ymhen chwe blynedd ar ôl ei gyhoeddi.

Yn ogystal â'r gofynion statudol a nodir uchod, y bwriad (fel yr amlinellir yn Nod 6) yw adolygu'r FMP draenogiaid y môr yn anffurfiol yn amlach ar y cyd â'r grŵp rheoli draenogiaid y môr i sicrhau y gellir parhau i addasu dulliau o reoli'r bysgodfa draenogiaid y môr yn y dyfodol mewn ymateb i dystiolaeth sy'n datblygu a'r amgylchiadau. Gallai hyn gynnwys (fel y nodir yn Nod 1) datblygu strategaeth monitro a gwerthuso ar gyfer yr FMP Draenogiaid y Môr.